# Prosiect bTB Gogledd Cymru
# North Wales bTB Project

**Prosiect bTB Gogledd Cymru**

Mae hwn yn brosiect sy'n benodol ar gyfer gogledd Cymru fel rhan o raglen Dileu Twbercwlosis Ymhlith Gwartheg (bTB) Llywodraeth Cymru. Caiff y prosiect ei reoli gan Mentera gan ddefnyddio arbenigedd o Ganolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Twbercwlosis Buchol (CBTB). Mae hon yn fenter sy'n adeiladu ar yr egwyddorion a'r arferion gorau a sefydlwyd gan brosiect Sir Benfro. Bydd yn ategu'r prosiect hwnnw gyda mwy o bwyslais ar gadw'r clefyd allan.

Nod y prosiect yw hyrwyddo cydweithio rhwng ffermwyr a'u milfeddygon a'u grymuso â gwybodaeth a hyfforddiant i reoli'r risg o bTB ar eu ffermydd. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfuniad o well mesurau bioddiogelwch a mynediad at ddata profion TB buchesi, a gwell dehongliad o'r data yma hefyd. Bydd y prosiect hefyd yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i filfeddygon, profwyr TB lleyg cymeradwy (ATTs), a ffermwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r pwnc.

Y nod, yn y pen draw, yw datblygu offer i leihau nifer yr achosion o bTB mewn buchesi yng Nghymru ac atal 'mannau poeth' o TB yn y dyfodol (hynny yw, cadw'r clefyd allan); neu glirio'r clefyd yn gyflym ar ôl iddo ddod i'r amlwg. Mae'r dull penodol hwn yn cefnogi dull ehangach strategaethau **"Ei gadw draw a'i ddileu"** y rhaglen dileu TB ymhlith gwartheg ar gyfer Cymru.

**Cymryd rhan yn y prosiect:**

Mae chwe milfeddygfa ledled gogledd Cymru wedi dewis 12 fferm i gymryd rhan yn y prosiect; mae'r rhain yn cwmpasu'r ardaloedd uchel, canolradd ac isel o ran risg TB. Ymhlith y ffermydd y mae rhai sydd wedi profi achosion o TB yn y fuches, neu sy'n eu profi ar hyn o bryd, a rhai sydd heb brofi unrhyw achosion o gwbl. Bydd y dull hwn yn helpu i werthuso'r offer bioddiogelwch a chyfradd risg o dan wahanol lefelau o risg TB.



**Offer y prosiect:**

**Hyfforddiant ac Addysg:** Bydd hyfforddiant ac addysg yn cael eu cyflwyno trwy raglenni hyfforddiant lefel uwch i ddatblygu gweithlu medrus sydd wedi'i baratoi'n well i fynd i'r afael â heriau bTB. Bydd ffermwyr y prosiect yn dod at ei gilydd mewn grŵp trafod a ariennir gan Agrisgop er mwyn rhoi cyfleoedd iddyn nhw drafod TB mewn awyrgylch agored, a hefyd i ddysgu oddi wrth eraill a rhannu arferion gorau.

**Asesiadau bioddiogelwch**

1. Ar ddechrau'r prosiect, bydd pob fferm yn cael ymweliad 'asesu bioddiogelwch' gan eu milfeddyg. Byddan nhw hefyd yn cael sgôr risg wedi'i phwysoli ar gyfer pob risg bioddiogelwch gan ddefnyddio'r ap *HerdsafeCity*.
2. Yna rhoddir cyfanswm sgôr risg i bob fferm. Cynhyrchir adroddiad pwrpasol yn amlinellu ychydig o gamau y cytunwyd arnyn nhw i'w cyflawni a'r newid disgwyliedig yn y sgôr risg.
3. Bydd y milfeddyg yn defnyddio'r ap i ddangos effaith arferion bioddiogelwch arfaethedig ar sgoriau risg sydd wedi'u pwysoli.
4. Yna cynhyrchir cyfanswm risg newydd a sgôr seren.
5. Bydd yr ap yn cael ei ddefnyddio mewn ymweliadau dilynol i asesu unrhyw newidiadau a wnaed ar y fferm ac i fonitro cynnydd wrth reoli risgiau.

**Dadansoddi data – 'Y Gyfradd Risg' ac ymchwil**

1. Mae MV Diagnostics wedi datblygu algorithm gan ddefnyddio canlyniadau profion bTB i gynhyrchu sgôr risg ar gyfer pob anifail ar y daliad. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn rhoi darlun cronolegol o'r hyn sy'n digwydd ar y fferm o ran risg clefyd gweddilliol.
2. Mae'r 'Gyfradd Risg' yn defnyddio data profion croen hanesyddol gan fuchesi a gwartheg unigol, ynghyd â dehongliad mwy sensitif o'r canlyniadau i adnabod anifeiliaid 'risg uchel'. Bydd y dadansoddiad yn datblygu dros amser i weld pryd a pha mor aml y mae anifeiliaid unigol yn cael eu nodi fel rhai sydd mewn perygl uchel o gael eu heintio â bacteria TB (*M.bovis)*. Caiff y data eu rhestru a daw'r gwartheg unigol yn y fuches yn destun system goleuadau traffig. Coch = risg uchel, Ambr a Gwyrdd. Y cyngor yw naill ai difa anifeiliaid 'risg goch' yn wirfoddol neu eu rheoli allan o'r fuches ar adeg sy'n gweddu i sut caiff yr anifeiliaid hynny eu rheoli.
3. Gall anifeiliaid a gaiff eu nodi fel rhai 'risg uchel' gael eu difa ar adeg gyfleus i'r ffermwr, fel ar ddiwedd cyfnod llaetha neu pan fyddan nhw'n anffrwythlon. Fel arall, mae modd rheoli'r anifeiliaid hyn yn wahanol, fel eu hynysu mewn grŵp gwahanol neu gymryd eu lloi newydd-anedig oddi arnyn nhw ar unwaith ('*snatch calving*'), neu fe ellir hyd yn oed ddewis peidio â chadw eu hepil fel heffrod cyfnewid yn y fuches. Gall yr anifeiliaid 'risg uchel' hyn hefyd fod â chlefyd cydamserol. Bydd y milfeddygon yn trafod y data risg gyda'r ffermwyr.
4. Ymchwilio i glefydau a heintiau cydamserol mewn perthynas â risg TB.
5. Risgiau o fywyd gwyllt, moch daear yn bennaf, mewn perthynas ag achosion presennol neu hanesyddol o TB.
6. Rhoi samplau er mwyn ymchwilio i heintiau bTB ymhlith buchesi gwartheg.

**Cyfweliadau gwyddor ymddygiadol.**

Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i ddeall a dylanwadu ar ymddygiadau cyfranogwyr mewn perthynas â TB ymhlith gwartheg.

Bydd gwyddonwyr ymddygiadol o Brifysgol Aberystwyth yn cysylltu â milfeddygon a ffermwyr drwy gydol y prosiect

(diwrnodau hyfforddi, ymweliadau â ffermydd, cynadleddau a sioeau sirol, ac ati).

Bydd y wybodaeth o'r rhyngweithiadau hyn ar reolaethau bTB a rheoli dadansoddiadau yn llywio'r hyfforddiant y maen nhw'n ei roi i filfeddygon sy'n cymryd rhan. Nod hyn, yn ei dro, fydd helpu'r ffermwyr i wneud y mwyaf o gamau gweithredu'r prosiect.

